

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid Anghyffredin, 20 Mai, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe and N.J. Wood a G. Chapman, M. Evans a N. Ireland (Aelodau Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) and Dr. I.J. Johnson

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi G. Chapman (Aelod Lleyg) yn Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi N. Ireland (Aelod Lleyg) yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. GWEITHREDU CYFUNO ORACLE (RHAN I) (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet ochr yn ochr â'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2024. Dyma brif sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Gellid effeithio ar brosiectau, a chynyddu costau pe na bai gan y Cyngor adnoddau a chapasiti digonol.

- Roedd angen mwy o atebolrwydd ar aelodau'r cyhoedd ynghylch yr heriau yr oedd y prosiect yn eu hwynebu, a dylai mwy o Graffu fod wedi'i gyflawni.
- Ar ddechrau unrhyw brosiect, roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo'r arbenigedd cywir yn ei le o'r holl feysydd gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys Comisiynu, Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth, Cyllid a Chyfreithiol.
- Roedd y gyllideb arfaethedig ar gyfer system Oracle ar ei chychwyn yn ymddangos yn annigonol gan nad oedd yn cynnwys archifo, arian wrth gefn ayb.
- Dylai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod wedi cael gwybod am faterion yn gynt a rhoi sicrwydd o ran yr amgylchedd rheoli.
- Roedd angen i'r ddogfen adolygu Gwersi a Ddysgwyd gael ei rhaedru'n eang ledled y sefydliad.
- Dylid trefnu gweithdy i aelodau i ddeall sut y byddai'r 59 argymhelliad yn cael eu gweithredu

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. POLISIŌAU CYFRIFO 2023/24, PENAWDAU ALLWEDDOL AR GYFER ARCHWILIO 2023/24 A PHARATOI AC ARCHWILIO DATGANIAD CYFRIFON 2022/23 ADOLYGU AC YSTYRIED Y GWERSI A DDYSGWYD (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. BARN CYFYNGEDIG ARCHWILIO MEWNOL 2023-24 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – Gofyn i'r Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol ar gyfer y tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig (Dyledwyr, Cartrefi Preswyl - rheoli stoc bwyd a Chanolfannau Hamdden - rheoli contractau a pherfformiad) ddarparu adroddiad diweddar ymhen chwe mis.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10. GWEITHREDU CYFUNO ORACLE (RHAN II) (CYF)
(GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) -

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.